

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**



**NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD**

Adroddiad Blynyddol Mai 2018 - Mehefin 2019

Cynnwys

Rhagair	<u>23</u>
Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant	<u>34</u>
Y Cyd-destun	<u>34</u>
Gweledigaeth	<u>45</u>
Amcanion Llesiant 2018-2023.....	<u>56</u>
Llywodraethiant.....	<u>67</u>
Crynodeb o Gynnydd	<u>910</u>
Amcan Llesiant Un - y Blynyddoedd Cynnar:	<u>910</u>
Amcan Llesiant Dau - Cymunedau Diogel a Chydnerth:.....	<u>1314</u>
Amcan Llesiant Tri - Heneiddio'n Dda:	<u>1718</u>
Amcan Llesiant Pedwar – Llesiant yn y Gweithle:	<u>2122</u>
Amcan Llesiant Pump - Seilwaith Werdd:.....	<u>2425</u>
Amcan Llesiant Chwech - Cynhwysiad Digidol.....	<u>2829</u>
Gwaith Arall a Symudwyd Ymlaen gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn 2018-19	<u>3133</u>
Datblygiad y Bwrdd	<u>3133</u>
Cynghorau Tref a Chymuned	<u>3133</u>
Camddefnyddio Sylweddau.....	<u>3133</u>
Y Blynyddoedd Cynnar.....	<u>3234</u>
Atal Hunanladdiad.....	<u>3335</u>
Y Cynghrair Gweithgarwch Corfforol	<u>3435</u>
Gweithio ar y cyd.....	<u>3436</u>
Sut gallwch chi olrhain cynnydd ac ymwneud â'n gwaith?	<u>3638</u>

Adroddiad Blynyddol



Annual Report

Rhagair

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei Gynllun Llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol - "Y Castell-nedd Port Talbot a Garem" - ym mis Mai 2018, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol ac ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid.

Dyma ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y cynnydd rydym ni'n ei wneud tuag at y blaenoriaethau a gyflwynwyd yn ein Cynllun. Yn ogystal ag adolygu cynnydd yn ystod y deuddeg mis cyntaf, mae'r Cynllun hefyd yn edrych ymlaen at y cyfnod nesaf o 12 mis, ac yn crynhoi ffocws y gwaith yn ystod y cyfnod cynllunio nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn ein bod yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, ac yn gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Er ei bod hi'n ddyddiau cynnnar, mae tystiolaeth ein bod ni'n dechrau ymateb i'r heriau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth i ni gydweithio mewn gwahanol ffyrdd - rhwng sefydliadau a'i gilydd a rhwng sefydliadau a'n cymunedau.

Ein gobaith yw y bydd gennych chi ddiddordeb yn y gwaith rydym ni'n ei wneud, a byddem ni'n croesawu syniadau a chyfraniadau sy'n gallu cyflawni newid i greu'r Castell-nedd Port Talbot y carai pob un ohonom ei weld.

Y Cyng. Rob Jones
Cadeirydd

Roger Thomas
Is-Gadeirydd

Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant

Y Cyd-destun

Sefydlodd Llywodraeth Cymru fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i annog sefydliadau lleol i gydweithio a mynd ati, gyda'r boblogaeth leol, i wella llesiant y bobl sy'n byw yn eu hardal. Cyflwynir sut mae Llywodraeth Cymru am weld hyn yn digwydd yn ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chanllawiau eraill.

Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai 2016. Mae'n dod ag amrywiaeth o asiantaethau ynghyd, y mae eu manylion i'w gweld yn yr atodiadau. (Atodiad 1)

**Byrddau
Gwasanaethau
Cyhoeddus**



**Public Services
Boards**

Y brif dasg gyntaf y bu'n rhaid i'r Bwrdd ymgymryd â hi oedd asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol. Mae ein Hasesiad Llesiant yn cynnwys ystod o wybodaeth ystadegol am y pethau niferus sy'n gallu cael effaith ar lesiant, megis: lefelau troseddu ac anhrefn; a chyrhaeddiad addysgol ac ati, yn ogystal â data am agweddau ar lesiant fel: cyfraddau marwoldeb; ac amlygrwydd afiechydon ac ati. Bu'r Aseiad hefyd yn casglu barn amrywiaeth eang o bobl er mwyn i'r Bwrdd sicrhau dealltwriaeth o'r hyn mae pobl yn barnu sy'n bwysig i'w llesiant eu hunain, beth sy'n dda am y sefyllfa bresennol, a ble mae'r angen mwyaf am welliant. Yn olaf, roedd yr Aseiad Llesiant yn cynnwys Adroddiad ar Dueddiadau i'r Dyfodol oedd yn cyflwyno nifer o faterion tebygol o effeithio ar lesiant yn ystod y 30 mlynedd nesaf neu fwy. Er enghraifft, risgiau newid yn yr hinsawdd; y twf mewn technolegau digidol; cyflenwadau bwyd a thanwydd - i restru ambell enghraifft yn unig.

Cyhoeddwyd yr Asesiad Llesiant ar ein gwefan, a defnyddiodd y Bwrdd ei ganfyddiadau i baratoi ein Cynllun Llesiant a'r blaenoriaethau a geir yn y Cynllun hwnnw. Wrth benderfynu ar y blaenoriaethau, teimlai'r Bwrdd ei fod yn bwysig dewis materion lle roedd gan y Bwrdd gyfle i wneud y gwahaniaeth mwyaf. Bu'r Bwrdd yn ymgynghori ar y Cynllun drafft yn ystod hydref 2017 a rhoddodd sylw i farn rhanddeiliaid, a hefyd y cyngor a gafwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth lunio'i raglen waith gychwynol yn derfynol. Cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018.

Cewch ragor o wybodaeth am ein Hasesiad Llesiant a'n Cynllun Llesiant trwy ddilyn y dolenni canlynol:

Asesiad <http://wellbeingsite.dns-systems.net/index.php/en/home/>

Cynllun <http://www.nptpsb.org.uk/>

Gweledigaeth

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog, iach, lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i gael bywyd llewyrchus - rhywle lle mae pobl eisiau byw, dysgu, gweithio, buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau lawer i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol a chynnig gwerth am arian, bod yn hawdd i bobl eu defnyddio, a chynnig cyflogaeth o safon lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Ar y cyd â'n dinasyddion, byddwn ni'n adeiladu ar ein cymunedau cryf, cydlynus lle bydd hawliau pawb yn cael eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn gydnerth, a bydd yn norm i ddinasyddion gael profiad di-fwlch, personol o wasanaethau ansawdd uchel. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddiadau a fydd yn galluogi'r fwrdeistref sirol i ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon ar gyfer pobl leol.

Bydd gan ein cymunedau gysylltiadau da trwy seilwaith trafndiaeth a digidol o'r radd flaenaf, a bydd ein hamgylchedd naturiol yn cael ei amddiffyn, ond hefyd yn cael ei ddatblygu i gynnal byw'n iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni'n gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan bob person ifanc ac oedolyn y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach ac yn llewyrchus; pan fydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau'n ffynnu ac yn cynnal y bobl sy'n byw ynddynt; a lle gall pobl dynnu ar gefnogaeth cymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig.

Amcanion Llesiant 2018-2023

Penderfynwyd canolbwyntio ar bedwar amcan llesiant:

1. Gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod (Arweinydd: Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Cyngor CNPT);
2. Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gan ganolbwyntio ar bobl fregus (Arweinydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Cyngor CNPT a Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) Castell-nedd Port Talbot);
3. Creu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda (Arweinydd: Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru); a
4. Chefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle (Arweinydd: Cadeirydd Bwrdd Iechyd Bae Abertawe).

Fodd bynnag, trwy drafodaeth penderfynwyd hefyd ymdrin â dau fater trawsbynciol:

5. Diogelu a gwella ein seilwaith werdd (Arweinydd: Rheolwr Rhanbarthol, Cyfoeth Naturiol Cymru);

6. Cynyddu lefelau cyfranogiad/cynhwysiad digidol (Arweinydd: Prif Weithredwr Cynorthwyol, y Cyngor).


Llywodraethiant

Mae pob amcan llesiant a thema trawsbynciol wedi cael eu harwain/noddi gan aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT. Roedd y Cynllun yn nodi ystod o gamau yr oedd y Bwrdd yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion neu'r themâu llesiant. Mae pob swyddog arweiniol wedi dod ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r camau hynny. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r swyddogion arweiniol er mwyn sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn cael ei weld mewn modd cyfannol.

Wrth ddatblygu manylion y rhaglenni gwaith, mae'r swyddogion arweiniol hefyd wedi ceisio cofleidio egwyddor datblygu cynaliadwy:


- **Integreiddio** - ystyried sut gall cyfraniad y BGC i'r amcanion llesiant effeithio ar bob un o nodau llesiant Llywodraeth Cymru, ar ei amcanion llesiant ei hun, ac ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio** - gweithredu ar y cyd ag unrhyw bersonau eraill (neu rannau eraill o'r BGC ei hun) a allai helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni ei amcanion llesiant;
- **Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei wasanaethu;
- **Ataliaeth** – sut gall gweithredu i atal pobl rhag bod mewn cyflwr penodol neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion; a
- **Hirdymor** – pwysigrwydd cadw cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor yn ogystal.





Mae swyddogion arweiniol hefyd wedi ystyried sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y nodau llesiant a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a
- Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.



Yn yr adran nesaf cewch grynodedb o'r hyn rydym ni wedi'i wneud hyd yma a'r hyn rydym ni'n bwriadu canolbwyntio arno yn ystod y 12 mis nesaf.

Yn ystod y flwyddyn hefyd daeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Dinas a

Sir Abertawe ynghyd a chytuno bod gweithredu ar y cyd ynghylch cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, lefelau'r heintiau difrifol a gafwyd trwy arferion chwistrellu cyffuriau opiwm, a ffenomen newydd - *county lines* - yn galw am ymateb amlasiantaeth ar lefel uwch. Cewch ddarllen rhagor am y gwaith hwn yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Bu'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni Llywodraeth Cymru, ac yn archwilio sut gallai gydweithio ar lefel ranbarthol a lleol wrth symud ei waith ymlaen. Mae rhai o'r syniadau a gynhyrchwyd gennym ynghylch sut gallem ni wneud hyn hefyd i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb o Gynnydd

Amcan Llesiant Un - y Blynyddoedd Cynnar:

Gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod (Arweinydd: Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Cyngor CNPT).

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc; teuluoedd, grwpiau cymunedol, darparwyr gwasanaeth ac ysgolion yn ardal Gorllewin Sandfields; aelodau etholedig lleol yn ardal Gorllewin Sandfields; Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf; Gweithredu Cynnar ar y Cyd; Rhaglen *Pathfinder* y Blynyddoedd Cynnar; Cyswllt Teuluoedd (*Families Connect*); Dechrau'n Deg; Teuluoedd yn Gyntaf.

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Sefydlwyd grŵp amlasiantaeth i ddatblygu parth cymunedol i blant yng Ngorllewin Sandfields - prosiect peilot a seiliwyd ar waith tebyg yn Hacni, Llundain. Datblygwyd egwyddorion allweddol a gweledigaeth mewn partneriaeth i dywys y prosiect. Defnyddir y dysgu o'r peilot i ddatblygu dulliau gweithredu ar draws y fwrdeistref sirol fydd yn sicrhau agwedd fwy cydlynus a chydweithredol at gefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar. Mae gan y prosiect gynllun cyflawni sy'n nodi camau gweithredu a cherrig milltir allweddol. Mae cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn yr agweddau hyn.



sy'n gweithio ac yn byw yn yr ardal.

Cafodd yr holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac ysgol gynradd yn yr ardal ei mapio, a hefyd y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi rhieni a phobl ifanc wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion. Bu ymgynghorydd allanol hefyd yn ymgysylltu â rhieni a sefydliadau

Yn ystod y flwyddyn cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot hefyd i gyfranogi yn Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn ystyried y cyfnod o feichiogi hyd at 2 oed, ac yn ceisio canfod y teuluoedd hynny lle mae risg y gallai plant yr oed yma gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod. Bellach mae cryn dystiolaeth arwyddocaol bod profiadau o'r fath yn gallu cael effaith ddifrifol ar lesiant plant. Cam gweithredu cynnar yn y Rhaglen oedd dod â'r holl ymarferwyr rheng flaen ynghyd i drafod pa mor dda mae'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar presennol yn gweithio. Yn ogystal â darparu sylfaen ar gyfer gwaith fydd yn cael ei ddatblygu gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, bu'r digwyddiad hefyd yn help i nodi rhai bylchau yn y ddarpariaeth yn ardal Gorllewin Sandfields, yn ogystal ag amlygu nodweddion gwasanaethau yn yr ardal y gwelwyd eu bod yn gweithio'n dda.



Mae'r partneriaid wedi rhoi ystyriaeth gynnar i fater rhannu gwybodaeth. Er bod amrywiaeth o drefniadau rhannu gwybodaeth da yn eu lle, cytunwyd bod angen gwella rhai protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cefnogi anghenion plant yn effeithiol yn eu blynyddoedd cynnar, ac wrth baratoi plant ar gyfer yr ysgol; yn arbennig, ar gyfer y teuluoedd hynny a fyddai'n elwa fwyaf o gefnogaeth ychwanegol.

Tua diwedd y flwyddyn, bu Llywodraeth Cymru yn chwilio am ddi-ddordeb gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i gyfranogi mewn rhaglen pathfinder y blynyddoedd cynnar. Cytunwyd y byddai'n

dddefnyddiol bod yn rhan o'r rhaglen pathfinder, er mwyn i'r gwaith lleol fedru elwa o'r gwaith ymchwil a'r dysgu fydd yn cael eu datblygu ledled Cymru. Mae'r pathfinder yn brosiect ar y cyd â Chyngor Abertawe, a bydd hyn yn darparu cyfleoedd i ni rannu ymarfer yn ehangach a datblygu dulliau gweithredu a rennir lle bo hynny'n briodol. Ymhellach, sicrhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu grant trawsffurfio er mwyn canolbwyntio ar waith yn y blynyddoedd cynnar – Gweithredu Cynnar ar y Cyd. Mae trafodaethau ar waith i sicrhau bod cydlyniant ar draws pob un o'r rhaglenni hyn, gyda ffocws clir ar brofi'r dulliau gweithredu newydd fel rhan o'r prosiect peilot yn ardal Gorllewin Sandfields.

Astudiaeth Achos:

Ers mis Hydref 2018, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi Arweinydd Cymuned Plant am 30 awr yr wythnos i ymgysylltu â theuluoedd a nodwyd a chydlynu gweithgareddau sy'n ceisio:

- Hyrwyddo gwell rhianta;
- Cefnogaeth cyn-geni gydag ymwelwyr iechyd;
- Cefnogaeth o ran iechyd a llesiant emosiynol;
- Clinig cwsg;
- Cyngori rhieni ar lwybrau yn ôl i'r gwaith mewn partneriaeth â Cymunedau Gwaith+;



- Ac amrywiaeth o weithgareddau eraill.

Cyflwynir y gweithgareddau hyn o safle ar Dir Morfa, sy'n addas i deuluoedd ac wedi'i addasu at y diben.

Yn ystod cyfnod o dri mis rydym ni wedi ymgysylltu â 59 o bartneriaid a chefnogwyd 53 o gyfranogwyr yn uniongyrchol.

Mewn un achos, fe wnaeth rhiant oedd yn amlwg wedi colli cysylltiad â gwasanaethau cefnogi gwrdd â'r Arweinydd Cymuned Plant mewn digwyddiad bore coffi a sôn am

broblemau cymdeithasol ac emosiynol gyda'i merch oedd yn ei harddegau. Arweiniodd hyn at drafodaeth fanwl a meithrin ymddiriedaeth rhwng y gweithiwr a'r rhiant. O ganlyniad, cyfeiriodd y rhiant ei hun at SPOC (man cyswllt sengl) er mwyn ceisio mwy o gefnogaeth arbenigol iddi hi a'i merch. Mae'r rhiant wedi sôn am lefel arwyddocaol o ymddiriedaeth yn yr Arweinydd Cymuned Plant, ac mae'n teimlo ei bod yn gallu trafod materion yn agored a fuasai, fel arall, yn achosi tipyn o dyndra a phryder yng nghyd-destun y teulu.

Mae hyn yn dangos gwerth meithrin perthynas gydag aelodau o'r gymuned a thorri i lawr rwystrau sy'n amlwg yn achosi anawsterau i deuluoedd unigol. Mae'r model cyfredol wedi'i seilio ar lefel uchel o welededd a gweithgaredd, gyda'r nod o sicrhau ymgysylltiad o safon gyda theuluoedd.

Mae teuluoedd sy'n ymgysylltu â'r model hwn yn gyffredinol yn sôn am lefel uwch o hyder o ran medru trafod problemau yn eu bywydau a'u gallu i geisio cefnogaeth. Mae'r adborth cyfredol gan deuluoedd yn dangos mai cefnogaeth yng nghyswllt iechyd a llesiant emosiynol, ymddygiad a rhianta yw'r prif flaenoriaethau. Mae'r sesiynau ymgysylltu yn llywio'r ddarpariaeth i'r dyfodol ac yn caniatáu i ni ddatblygu dull gweithredu mwy cydlynus ar gyfer ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

Y Camau Nesaf

- Cytuno ar feini prawf i ganfod teuluoedd sy'n 'fregus'.
- Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Darparwyd sylfaen ar gyfer hyn gan waith a wnaed mewn cydweithrediad â gweithdy'r 1000 Diwrnod Cyntaf, sydd wedi golygu bod modd i ni elwa o amrywiaeth o safbwyntiau a dealltwriaeth darparwyr gwasanaethau.
- Canfod rhwystrau o ran mynediad i wasanaethau.
- Sefydlu grŵp cyfeirio lleol (cynnwys plant a phobl ifanc).
- Datblygu fframwaith gwerthuso priodol i ddeall effeithiolrwydd y model Cymuned Plant, o ran cyfranogiad cymunedol ac effaith ar ddefnyddwyr.

Amcan Llesiant Dau - Cymunedau Diogel a Chydnerth:

Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gan ganolbwyntio ar bobl fregus (Arweinydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, y Cyngor a Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) Castell-nedd Port Talbot).

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Heddlu De Cymru; Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot; Bwrdd Iechyd Bae Abertawe; Tai Tarian; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru; aelodau etholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot; aelodau etholedig o gynghorau tref a chymuned yn ardaloedd Melin, Castell-nedd, Llansawel a Dyffryn Aman; grwpiau cymunedol; siopwyr lleol; arweinwyr ffydd; gwirfoddolwyr a thrigolion; yn ogystal â darparwyr gwasanaethau ac arweinwyr cymunedol yn nwy ardal beilot Melin/Llansawel a Dyffryn Aman; Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Ffurfiwyd grŵp arweinyddiaeth gyda phrif swyddogion eraill sy'n cynrychioli partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cefnogir y grŵp arweinyddiaeth gan Grŵp Strategol, dan gadeiryddiaeth swyddog o Fwrdd Iechyd Bae Abertawe, sy'n dod â'r rheolwyr gwasanaethau a'r rhanddeiliaid hynny ynghyd fydd yn gallu helpu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae dau grŵp gweithredol yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd - un ar gyfer pob un o'r ardaloedd peilot, gyda'r bwriad y bydd aelodaeth y grwpiau hyn yn dod o blith y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen yn y cymunedau dan sylw.

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu eang ymhlith arweinwyr cymunedol allweddol gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai a Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, i brofi lefel y gefnogaeth ar gyfer y gwaith. Ar ben hynny, cynhaliwyd nifer o sesiynau gweithdy ar gyfer y grŵp arweinyddiaeth a'r grŵp strategol, i sicrhau gweledigaeth a rennir ac ymrwymiad i'r rhaglen.

Cyflwynwyd Cynnig Trawsffurfio trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am adnoddau ariannol i gyflawni'r gwaith yn y ddwy ardal beilot. Bydd yr arian yma'n targedu datblygu capasiti cymunedau a hyfforddi gweithluoedd gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys y Trydydd Sector). Y bwriad yw bod manteision gweithio mewn model seiliedig ar asedau yn cael eu gwerthuso cyn estyn y dull gweithredu hwn ar draws rhannau eraill o'r fwrdeistref sirol.

Mae'r broses o fapio asedau cymunedol wedi cychwyn, ac mae cam cyntaf cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi cael ei ddatblygu hefyd. Ar ben hynny, mae'r gweithluoedd sy'n gweithredu yn y ddwy ardal wedi cael eu hasesu, a datblygwyd cynllun hyfforddiant arfaethedig. Mae nifer bach o swyddi neilltuedig i gael eu sefydlu i gefnogi'r gwaith yn y ddwy asiantaeth statudol ac yn y Trydydd Sector.

Yn dilyn adfyfrio, cytunwyd na fydd y gwaith yn canolbwyntio'n unig ar bobl fregus, ond yn hytrach yn cynnwys y gymuned gyfan.

Astudiaeth Achos:

Mae gan bob cymuned asedau, cyfleusterau, busnesau, parciau, coedwigoedd, ond yn bwysicaf oll y bobl a'u galluoedd, grwpiau cymunedol trefnus ac unigolion sydd â medrau a doniau. Mae angen i bob un o'r rhain gael eu mapio er mwyn creu darlun o'r gymuned sy'n dangos ei chapasiti a'i photensial.

Mae dull gweithredu seiliedig ar asedau yn newid meddylfryd ac ymarfer pobl sydd am weithio gyda chymunedau ar faterion pwysig. Mae'r rhaglen yn golygu canolbwyntio ar yr hyn sy'n gryf, nid yr hyn sydd o'i le ar ein cymunedau. Y nod yw gwneud digon o newidiadau bach i gychwyn newid diwylliant o ran sut mae cymunedau'n cefnogi ei gilydd.

Gyda'n gilydd rydym ni wedi dysgu bod angen i ddulliau gweithredu fod yn hyblyg a gallu cael eu haddasu, gan gydnabod unigrywiaeth pobl a lleoedd. Os ydym i wneud pethau mewn ffordd wahanol, mae angen i ni fod yn fwy arbrofol, gan ddysgu o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol a'r hyn sydd ddim. Dyna nod Adeiladu Cymunedau Diogel a Chydnerth. Mae gan y Cydlynwyr Ardal Lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi cymunedau i'w cynnal eu hunain. Ceir enghraifft o'r mathau hynny o waith sy'n cynnwys Cydlynwyr Ardal Lleol isod:

Torri trwy'r ynysu

Cafwyd atgyfeiriad gan gymdeithas tai ynghylch dyn a fu'n aelod o'r lluoedd arfog. O ganlyniad i broblemau iechyd mae wedi mynd yn fwy caeth i'r tŷ nag oedd yn gyfarwydd iddo, gan iddo fod yn actif iawn yn flaenorol, ac yn mwynhau celf a chŵn. Er ei fod yn wynebu heriau o ganlyniad i'w iechyd, nid oedd am gael gofalwr neu gymorth cymdeithasol arall oherwydd nad oedd am fod, fel y teimlai y byddai, yn niwsans neu'n faich ar eraill. Cytunodd i gwrdd â'r Cydlynnydd Ardal Lleol, a fu'n archwilio ei orffennol cyfoethog a chreadigol, ac wrth wneud hynny, darganfu iddo fod yn actor ychwanegol mewn sawl ffilm a rhaglen deledu a grewyd yn lleol. Mae hyn wedi arwain at drefnu sgrinio'r ffilmiau y bu ynddynt yn arbennig mewn clwb ffilmiau lleol, gyda sesiwn holi ac ateb wedyn. Mae hyn bellach wedi golygu bod ganddo fwy o ffocws allanol eto, sef yr hyn yr oedd arno ei angen i atal ei gyflwr ynysig.

Mae'r Cydlynwyr Ardal Lleol yn aml yn cwrdd â'r rhai sydd wedi cael eu hynysu'n gymdeithasol, mae gan lawer ohonynt ddiddordebau a doniau, ond oherwydd digwyddiadau bywyd fel ysgariad, profedigaeth a phroblemau iechyd maent wedi colli'r hyder i ymgysylltu ag eraill. Gall gweithio tuag at y diddordebau hynny arwain at ddod â grwpiau bach ynghyd, megis clybiau garddio, grwpiau crefft, a chynulliadau cymdeithasol megis clybiau cinio.

Nadolig diwethaf, daeth Cydlynnydd Ardal Lleol â'r holl grwpiau roedd hi'n ymwybodol ohonynt ynghyd mewn Parti Nadolig. Yn ystod y parti, gellid clywed storïau am sut byddai'r rhai dan sylw yn disgrifio'u teimladau o unigrwydd a bod yn ynysig cyn dod yn rhan o'r grwpiau bach lleol, a sut roedd pethau wedi gwella a newid iddyn nhw o ganlyniad i'w cyfranogiad. Roedd y parti nid yn unig yn ddathliad Nadolig ond hefyd mewn llawer o ffyrdd yn ddathliad o'r Hyrwyddwyr Cymunedol hynny oedd wedi dod â 96 o unigolion ynysig ynghyd ar gyfer Digwyddiad Nadolig arbennig iawn.

Y Camau Nesaf

Y Camau Nesaf ar gyfer 2019-20 yw:

1. Recriwtio tîm ymroddedig o staff i weithio ar y rhaglen a sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o nodau'r rhaglen.
2. Rhoi'r cynllun cyfathrebu ar waith a'r broses ar gyfer cyflwyno'r rhaglen i bob partner, asiantaeth, cymuned ac unigolyn.
3. Sefydlu grŵp gweithredol ar gyfer pob un o'r ardaloedd peilot er mwyn canfod asedau a chyfleoedd ar gyfer datblygu yn y gymuned.
4. Sefydlu, hyrwyddo a gweinyddu cynllun grantiau cymunedol ym mhob un o'r ardaloedd peilot i gefnogi gweithgarwch cymunedol.
5. Adolygu cynnydd y rhaglen, nodi'r heriau a dathlu'r cyflawniadau.

Amcan Llesiant Tri - Heneiddio'n Dda:

Creu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda (Arweinydd: Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Y Comisiynydd Pobl Hŷn; Gwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru; yr Adran Gwaith a Phensiynau; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Heddlu De Cymru; Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot; Bwrdd Iechyd Bae Abertawe; Bwrdd Iechyd Hywel Dda; Tai Tarian; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cymdeithas Clefyd Alzheimer;

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Cynhaliwyd hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o **dementia**, gyda chefnogaeth cyllid o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin;

Mynegwyd diddordeb mewn gweithio tuag at safon gydnabyddiaeth Cymdeithas Clefyd Alzheimer i gymunedau sy'n cefnogi dementia, a chwblhawyd y gwaith rhagarweiniol i alluogi BGC Castell-nedd Port Talbot i weithio tuag at gael ei gydnabod.

Crewyd cysylltiadau â'r Grŵp **Atal Cwmpo** ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe. Nodwyd mai'r peth mwyaf defnyddiol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fyddai canolbwyntio ar weithgareddau ataliaeth sylfaenol, gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar ataliaeth eilaidd a thrydyddol. Bydd hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod gwaith y ddwy bartneriaeth yn cyd-fynd a'u bod yn ychwanegu gwerth at waith ei gilydd.

Gwnaed gwaith rhagarweiniol i asesu graddfa a chwmpas y gwaith i ymdrin ag **unigrwydd a phrofiadau ynysig** pobl yn y fwrdeistref sirol. Mae'r asesiad wedi dangos bod hyn yn effeithio ar bobl o bob oed, ac er bod modd cefnogi rhai pobl mewn lleoliadau cymunedol, bod angen cefnogaeth un i un ar eraill - o leiaf yn y cyfnod cynnar.

Mae Tai Tarian wedi symud ymlaen â'u gwaith i roi sylw i brofiadau eu tenantiaid o **gredyd cost uchel a dyledion**. Gan weithio oddi mewn i'r Gynghrair ehangach a sefydlwyd gan yr actor a aned yn lleol, Michael Sheen, mae Tai Tarian wedi datblygu dealltwriaeth fanwl iawn o sut mae cylch dyledion yn datblygu, y risgiau a'r cyfleoedd i gefnogi pobl i ddianc o'r fath amgylchiadau, yn ogystal â newidiadau ehangach i'r system sy'n angenrheidiol ar gyfer y tymor hir. Mae gan y gwaith hwn botensial i gael ei gymhwyso'n llawer ehangach yn y fwrdeistref sirol.

Mae Heddlu De Cymru wedi nodi bod pobl hŷn yn aml ddim yn rhoi gwybod am **droseddu ac anhrefn**. Bydd y canfyddiad hwn yn cael ei fwydo i mewn i'r Partneriaid Diogelwch Cymunedol – Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel – ar gyfer gweithredu.

Mae trefniadau i gefnogi pobl hŷn i gael **gwaith** hefyd wedi cael eu hystyried o fewn y grŵp. Mae ystod o wasanaethau a rhaglenni cymorth ar gael yn y fwrdeistref sirol sy'n gallu cefnogi pobl hŷn i aros mewn cyflogaeth neu i sicrhau cyflogaeth, ond mae hefyd rwystrau i gyflogaeth yn y grŵp oed yma, ac mae angen edrych yn fanylach arnynt. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno i arwain cyfnod nesaf y gwaith.

Yn ogystal â rhoi hwb cychwynnol i'r gwaith mewn perthynas â phob un o'r meysydd ffocws y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyflwynwyd yn y Cynllun Llesiant, mae gwaith hefyd wedi cael ei ddatblygu mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Cafwyd hyd i arbenigedd i gefnogi partneriaid er mwyn sicrhau, pan fydd angen, bod modd rhannu gwybodaeth yn hyderus ac yn gyfreithlon.

Ystyriwyd hefyd fabwysiadu'r model Gwneud i bob Cyswllt Gyfrif. Bernir bod gan y dull gweithredu gryn botensial ar gyfer datblygu gweithlu gwasanaethau cyhoeddus sy'n mabwysiadu athroniaeth gyffredin ar gyfer sut mae pob gweithiwr yn rhyngweithio â gweithwyr eraill a'r cyhoedd, gyda phwyslais ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd eisoes gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cael eu rhannu gyda phartneriaid Castell-nedd Port Talbot.

Ar ôl dechrau brwd i'r gwaith, amharwyd ar gynnydd yng nghanol y flwyddyn oherwydd bod swyddogion allweddol wedi symud i wahanol rolau yn eu hasiantaethau. Tua diwedd y flwyddyn, bu ymgysylltu o'r newydd, a dylai hynny olygu y gwneir cynnydd cadarnhaol yn y cyfnod adrodd nesaf.

Astudiaeth Achos:

Mae aelwyd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd os ydynt yn gwario 10% neu fwy o'r incwm sydd ganddynt, gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Treth y Cyngor, ar gostau ynni.

Yn 2015 roedd tua 291,000 o aelwydydd, sy'n cyfateb i 23% o'r holl aelwydydd yng Nghymru, yn byw mewn tlodi tanwydd. Yn achos cwsmeriaid sydd mewn tai cymdeithasol, mae cyfradd tlodi tanwydd yn uwch fyth - amcangyfrifir ei fod yn 27% yn 2015. Er bod yr union ffigurau wedi bod yn anodd eu canfod, mae disgwyl ei fod yn dilyn yr holl fynegeion cymdeithasol eraill ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, ac ym mhen uchaf y sbectrwm.

Mae'r premiwm tlodi ar ynni yn golygu bod y rhai sy'n gallu fforddio ynni leiaf ymhlith y rhai sy'n gorfod talu fwyaf. Tariff y mesuryddion talu ymlaen llaw yw'r uchaf. Mae'r cyfnodau brig yn ystod y dydd, sy'n cael effaith ar y rhai sy'n gaeth i'r tŷ ac yn ddi-waith.

Tai Tarian yw un o'r landlordiaid cymdeithasol mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am dros 9,000 o eiddo ar draws Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Maen nhw'n ymroddedig i ddarparu tai o ansawdd da, ac amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl i reoli eu cartrefi.

Ar hyn o bryd mae Tai Tarian yn archwilio opsiynau i ddarparu mynediad i brisiau tanwydd rhatach ar gyfer tenantiaid cyfredol a newydd. Os yw'r cynllun hwn yn llwyddiannus, bydd yn darparu mynediad i dariff is wrth dalu ymlaen llaw, a'r gobaith yw y bydd yn sicrhau bod eu tariff yn aros yn y chwarterel isaf. Mae Tai Tarian hefyd yn edrych ar opsiwn gosod Mesuryddion Clyfar a fydd, yn eu tro, yn helpu tenantiaid i reoli eu cyllidebau. O ganlyniad, ni fydd biliau wedi'u hamcangyfrif, fydd yn helpu i atal tenantiaid rhag mynd i ddyled.

Er bod y mentrau hyn yn dal i gael eu datblygu, y gobaith yw, os cânt eu cyflwyno, y byddant yn gam radical o ran lleihau effaith costau tanwydd uchel ar deuluoedd incwm isel.

Y Camau Nesaf

1. Llunio a chyflwyno dull gweithredu 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' (MECC) er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y Grŵp Strategaeth Heneiddio'n Dda.

2. Darparu hyfforddiant MECC i staff rheng flaen amlasiantaeth.
3. Darparu fframwaith gwerthuso i fesur cynnydd tymor byr, canolog a hir.

Trosolwg

Mae MECC yn ddull gweithredu sy'n defyddio'r miliynau o adegau pan fydd ein staff rheng flaen yn rhyngweithio â thrigolion i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd corfforol a'u llesiant. Mae MECC yn galluogi cyflwyno gwybodaeth gyson a chryno ynghylch ffordd iach o fyw, ac yn golygu bod modd i unigolion gael sgysiau am eu hiechyd.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn mae bwriad i roi hyfforddiant i staff rheng flaen y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, er mwyn helpu i gyflwyno'r negeseuon allweddol hyn i'n trigolion.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi staff rheng flaen i ddarparu gwybodaeth a negeseuon allweddol ynghylch y canlynol:

- Iechyd Cyhoeddus
- Diogelwch rhag Tân
- Atal Troseddu
- Gwrthweithio unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Tlodi Tanwydd
- Ymwybyddiaeth o Dementia

Yn achos y staff, mae MECC yn golygu meddu ar y gallu a'r hyder i gyflwyno negeseuon ffordd iach o fyw, ac anogaeth i bobl newid eu hymddygiad a chyfeirio ymlaen at wasanaethau lleol sy'n gallu eu cefnogi i newid.

Nid yw MECC yn golygu:

- Ychwanegu swydd arall at ddiwrnodau gwaith sydd eisoes yn brysur
- Staff yn dod yn arbenigwyr mewn meysydd ffordd o fyw penodol
- Staff yn dod yn gwmselwyr neu'n darparu cefnogaeth barhaus i unigolion penodol
- Staff yn dweud wrth rywun beth i'w wneud a sut i fyw eu bywyd.

Yn ogystal, bydd angen i'r prosiect MECC sicrhau bod rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r GDPR mewn perthynas â rhannu data.

Amcan Llesiant Pedwar – Llesiant yn y Gweithle:

Cefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle (Arweinydd: Cadeirydd Bwrdd Iechyd Bae Abertawe).

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Bwrdd Iechyd Bae Abertawe; Cwmni Moduron Ford; Tai Tarian; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot; Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Cytunwyd mai ffocws cychwynnol y gwaith fyddai canolbwyntio ar sut gellid sicrhau gwelliannau i lesiant trwy sefydliadau partner y BGC yn eu rôl fel cyflogwyr arwyddocaol yn yr ardal leol.

Gwelodd gweithdy cychwynnol raglenni a mentrau llesiant presennol oedd eisoes yn eu lle ym mhob un o asiantaethau partner y BGC yn cael eu rhannu a'u cofnodi. Hefyd rhannwyd manylion cyswllt i'r rhai oedd â diddordeb mewn mynd ar ôl gwybodaeth a rannwyd yn y digwyddiad gweithdy.

Roedd ail weithdy yn cynnwys cyflwyniadau gan Gwmni Moduron Ford a Gweithio'n Iach Cymru, gyda Tai Tarian a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgrifio sut gallai mentrau llesiant gael eu mesur a'u defnyddio i gyflawni gwelliannau pellach o ran llesiant trwy'r gweithle.

Cafodd dadelfennu Bwrdd Iechyd ABMU effaith ar lefel y momentwm yr oedd modd ei gynhyrchu ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ystod y flwyddyn, gan fod gofyn i'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid cysylltiedig roi blaenoriaeth i'r gwaith angenrheidiol i drosglwyddo gwasanaethau iechyd pobl Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Fodd bynnag, mae'r partneriaid yn dal yn ymroddedig i'r amcan hwn, a dylai 2019-20 weld cynnydd mwy sylweddol.

Astudiaeth Achos:

Mae'r partneriaid wedi rhannu arfer gorau o ran cefnogi a hybu iechyd a llesiant staff yn eu sefydliadau, a gwnaed cynigion i rannu datblygiadau ar draws sefydliadau partner.

Cyflwynodd cydweithwyr o SBU y Gwasanaeth Llesiant Staff sy'n galluogi'r staff i gael mynediad i gefnogaeth amserol ar gyfer cyflyrau cyhyr-ysgerbydol a iechyd meddwl cyffredin trwy un pwynt mynediad dros y ffôn. Mae hyn yn cael ei gefnogi a'i hyrwyddo gan rwydwaith o fwy na 340 o Hyrwyddwyr Llesiant sy'n derbyn cyfleoedd hyfforddi a datblygu trwy fynychu gweithdai bob chwe mis, lle maent yn cael gwybod am gefnogaeth fewnol ac allanol y gallan nhw gyfeirio aelodau'r tîm ati. Mae'r Hyrwyddwyr hefyd yn hybu ymgyrchoedd iechyd Cenedlaethol ac yn hwyluso mentrau llesiant yn eu gweithleoedd.

Y Camau Nesaf

Mae'r meysydd canlynol wedi dod i'r amlwg ar gyfer ffocws posibl yn 2019-20 a gofynnwyd i'r aelodau ystyried eu cyfraniadau a'u blaenoriaethau:

1. Mae'r holl aelodau i adolygu "ceisiadau" a "chynigion" y gweithdy cyntaf a symud ymlaen gyda hyn trwy greu'r cysylltiadau eu hunain.
2. Mae'r aelodau i rannu eu hymgyrchoedd hybu iechyd a llesiant neu eu dull o weithredu ymgyrchoedd Cenedlaethol er mwyn hybu syniadau/arfer da a lleihau dyblygu gwaith.
3. Iechyd Meddwl – mae'r aelodau sydd â diddordeb i weithio tuag at strategaeth ar y cyd.
4. Hyfforddiant Rheolwyr Iechyd Meddwl - posibiliadau comisiynu ar y cyd.
5. Grŵp gorchwyl a gorffen Mesur a Metreg – roedd hwn yn gam gweithredu y cytunwyd arno yng ngweithdy mis Hydref, ond ymddengys bod capasiti cyfyngedig i wneud y gwaith ar hyn o bryd.
6. Mae pob un o'r aelodau i sicrhau presenoldeb cyson yn y grŵp/cyfarfodydd staff sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau yn eu sefydliadau, er mwyn sicrhau cynnydd yn y gwaith a chamau i symud y gwaith yn ei flaen.
7. Mae ystyriaeth i gael ei rhoi i gynnwys cyflogwyr pwysig eraill yn yr ardal, e.e. y DVLA, Tata Steel, ac ati yn y llif gwaith llesiant hwn)

Bydd angen adnodd rheoli penodedig ar gyfer y Prosiect i sicrhau dilyniant y llif gwaith, ac i gefnogi'r partneriaid i lunio a chyflawni'r canlyniadau cytunedig.

Amcan Llesiant Pump - Seilwaith Werdd:

Diogelu a gwella ein seilwaith werdd (Arweinydd: Rheolwr Rhanbarthol, Cyfoeth Naturiol Cymru).

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Bwrdd Iechyd Bae Abertawe; Iechyd Cyhoeddus Cymru; CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas a Sir Abertawe; grwpiau cymunedol a thrigolion yn ardal Taibach/Margam.

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Ffurfiwyd grŵp llywio amlasiantaeth i symud ymlaen gyda'r gwaith a gyflwynwyd yn y Cynllun Llesiant, a gwnaeth y Grŵp hwn gais am gyllid a'i sicrhau o dan Raglen Grantiau Cyfalaf Seilwaith Werdd Llywodraeth Cymru.

Gwnaed mwy o waith mapio manwl ar fannau glas a gwyrdd Castell-nedd Port Talbot, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar gyfer y Datganiadau Ardal a'r Aseiad Llesiant. Lluniwyd mapiau o'r galw a'r cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o faterion, gan gynnwys: ansawdd aer; mynediad at fannau gwyrdd; llifogydd; a dal a storio carbon.

Dewiswyd ardal beilot – Margam a Thaibach – yn safle lle gallai cydweithio gyflawni manteision niferus. Nodwyd Meysydd Chwarae Groeswen ar gyfer gwella'r Seilwaith Werdd, a datblygwyd dyluniad ar gyfer y safle gan ymgynghorwyr tirwedd. Cafodd y trigolion lleol eu cynnwys ar hyd y broses.

Mae'r prosiect bellach wedi cyrraedd y cam cyflwyno, fydd yn darparu seddau; gwell mynediad; gwelliannau i'r trefniadau torri gwair er mwyn cynnal rhywogaethau peillio; plannu coed er budd ansawdd aer; a chynnwys manteision o safbwynt bioamrywiaeth a golwg yr ardal. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith yn cael eu casglu i lywio gwaith pellach ar draws y fwrdeistref sirol.

Ym mis Chwefror 2019, cynhaliwyd gweithdy gyda phartneriaid i archwilio meysydd y gellid eu datblygu i gynnal llesiant. Un o fanteision uniongyrchol y gweithdy oedd ffurfio rhwydwaith o sefydliadau a

gwirfoddolwyr â diddordeb. Hefyd casglwyd syniadau ynghylch ble gall y gwaith ar y Seilwaith Werdd gefnogi amcanion llesiant eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a byddant yn cael eu hystyried gan y Grŵp Llywio wrth benderfynu ar y camau gweithredu i'w datblygu yn ystod y cyfnod nesaf.

Astudiaeth Achos:

Fel rhan o broses Datganiad Ardal y De-orllewin, buom ni'n treialu dull newydd creadigol o ganfod cyfleoedd i gyflwyno SMNR. Fe wnaethom ni gyfuno pŵer ymennydd ein harbenigwyr lleol, mapiau anferth ar asetad, a phinnau lliw arbennig ar ffurf gweithdy arloesol.

Lluniwyd y sesiwn yn ffordd ymarferol o ganfod ac archwilio'r cyfleoedd i wella gwydnwch ein hecosystemau. Fe wnaethom ni annog y cyfranogwyr i drafod eu syniad gyda'r grŵp cyn dewis lliw unigryw a



thynnu llun o'u cyfle ar yr haen oedd dros y map. Llanwyd ffurflenni oedd yn cyfateb i bob cyfle a dynnwyd ar y map, gan ddarparu mwy o fanylion am y cyfle a'r mater(ion) yr oedd ymgais i'w (d)datrys.

Hyd yma, rydym wedi profi hyn yn fewnol gyda'n cydweithwyr BioCon, a byddwn ni'n ei estyn i grwpiau allanol yn ystod y misoedd sy'n dod. Rydym wedi cael adborth da o'r sesiwn - dywedodd y cyfranogwyr fod y fformat yn annog trafodaeth ymarferol, syniadau creadigol, gwaith amlswyddogaeth (torri allan o'r seilos) a ffyrdd newydd o ddarparu




manteision lluosog. Yn fwy na dim, roedd yn ymarferiad difyr!



Yn dilyn y gweithdy, rydym wedi digideiddio holl bolygonau'r mapiau ar GIS (sgrinlun isod). Mae pob un o'r Cyfleoedd wedi cael eu bwydo i **EFAST** ('**E**ngagement for **A**rea **S**tatements **T**ool') ar gyfer dadansoddi a blaenoriaethu'n ddiweddarach. Pan edrychwn ni ar y cyfleoedd ar draws y De-orllewin, gallwn chwilio am fannau lle mae angen dybryd am gyflawni.

Fel rhan o'n hymgysylltu allanol yn y De-orllewin rydym yn bwriadu cynnal sesiynau mapio cyfranogol tebyg gyda'n Partneriaethau Natur Lleol ac mewn 'Gweithdai Cyfleoedd' ar draws y sir, a fydd yn cynnwys ystod eang o wahanol randdeiliaid.



Y Camau Nesaf

Mae ffocws y Grŵp Craidd yn debygol o ganolbwyntio ar rai meysydd allweddol:-

- Addysg a chynyddu ymwybyddiaeth – rôl y Seilwaith Werdd o ran cynnal llesiant; beth sy'n dda am y sir (dolen i'r cynllun Natur)

- Datblygu rhwydweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth a syniadau - beth sy'n digwydd a ble; rhannu asedau (gwybodaeth, sgiliau, cyfarpar, tir, amser gwirfoddolwyr);
- Datblygu arfer gorau ar gyfer gwella'r Seilwaith Werdd - datblygu astudiaethau achos; defnyddio'r ystâd cyhoeddus

Prosiect rhanbarthol Seilwaith Werdd/ENRAW - bydd yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect cychwynnol ac yn hwyluso darparu gwelliannau/ymyriadau pellach o ran y Seilwaith Werdd.

Amcan Llesiant Chwech - Cynhwysiad Digidol

Mynd i'r afael ag Eithrio Digidol (Arweinydd: Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)

Partneriaid/Rhanddeiliaid sy'n cael eu cynnwys:

Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Bwrdd Iechyd Bae Abertawe; Grŵp Coleg CNPT; Heddlu De Cymru; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Tai Tarian; Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot; sefydliadau trydydd sector; Cymunedau Digidol Cymru; yr Adran Gwaith a Phensiynau; y Gronfa Datblygu Gwledig.

Cyflawniadau Allweddol yn ystod 2018-19:

Sefydlwyd swydd Llysgennad Cynhwysiad Digidol gyda chymorth arian o'r Rhaglen Datblygu Gwledig, i helpu i symud ymlaen gyda'r blaenoriaethau ar gyfer adeiladu capasiti a gallu yn y Trydydd Sector yn lleol.

Cynhaliwyd digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth ym mis Chwefror 2019 ar gyfer y Trydydd Sector, gyda gwybodaeth am godi arian ar-lein; cyrchu cefnogaeth Cymunedau Digidol Cymru; roedd sgiliau a hyfforddiant ar gael i'r rhai oedd yn bresennol.

Mae Grŵp Llywio dan arweiniad y Trydydd Sector bellach ar waith a bydd yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen o waith i adeiladu capasiti a gallu dros amser, gyda chefnogaeth y Llysgennad Cynhwysiad Digidol.

Cynhaliwyd arolwg o holl sefydliadau partner y BGC, i ganfod i ba raddau roedden nhw wedi llwyddo i symud ymlaen gyda'r ymrwymiad a wnaed gan bartneriaid y BGC i weithio'n unol â'r Siarter Cynhwysiad Digidol, gyda chefnogaeth Cymunedau Digidol Cymru. Er bod asiantaethau wedi cyrraedd gwahanol fannau yn eu gwaith, mae'n ddigon amlwg bod y flaenoriaeth mae'r BGC yn ei rhoi i'r maes hwn wedi cynyddu pwysigrwydd mynd i'r afael â chynhwysiad digidol ar draws asiantaethau.

Mae'r gwaith a wnaed gan bartneriaid hyd yma wedi cael ei gasglu mewn matrices, ac mae'n cael ei ddefnyddio yn y Grŵp Strategol

Cynhwysiad Digidol er mwyn rhannu dysgu a chynhyrchu cefnogaeth o'r ddeutu ymhlith partneriaid. Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi ymgysylltu â'r Grŵp Strategol, a'r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at hyder ymhlith mwy o asiantaethau i symud ymlaen gydag achrediad ffurfiol yn ôl y Siarter.

Mae pwysigrwydd rhoi sylw i gynhwysiad digidol wedi cael ei godi'n barhaus fel mater i'w ystyried ar draws yr holl amcanion llesiant, gan fod y swyddogion arweiniol eraill wedi datblygu eu rhaglenni gwaith i gyflawni'r Cynllun Llesiant.



Mae Heddlu De Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y fwrdeistref sirol yng nghyswllt atal seiber-drosedd. Fel un o'r rhwystrau i gyfranogiad digidol, mae meithrin ymddiriedaeth a hyder i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol – Castell-nedd Port Talbot mwy Diogel wedi mabwysiadu hyn yn un o dair blaenoriaeth yn ystod 2019-20, gyda'r camau gweithredu cynnar yn canolbwyntio ar ganfod set o negeseuon cyffredin y gall pob partneriaeth eu cyfleu yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd er mwyn helpu mwy o bobl i gadw'n ddiogel ar-lein.

Astudiaeth Achos:

Rydym wedi dysgu bod seiber-droseddu bellach yn fygythiad sylweddol iawn, gan fod mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r Rhyngwrwd i gefnogi eu bywydau beunyddiol. Er y bydd llawer ohonom ni'n gyfarwydd ag achosion o dwyll - er enghraifft pan fydd pobl yn dwyn eich hunaniaeth ar-lein ac yn defnyddio hynny i gyflawni troseddau - rydym wedi dod yn ymwybodol o ystod lawer ehangach o risgiau a bygythiadau y mae angen i ni roi sylw iddynt fel rhan o'n gwaith. Er enghraifft, gall pobl sy'n defnyddio'r Rhyngwrwd i'w helpu i gael hyd i bartner ganfod eu bod yn cael eu twyllo gan bobl ddiegwyddor nad ydynt hyd yn oed yn byw yn y Deyrnas Unedig; mae'r Rhyngwrwd hefyd yn rhywle lle mae cryn gamfanteisio ar bobl fregus - ecsbloetio plant yn rhywiol; radicaleiddio at ddibenion eithafol neu frawychol - dwy enghraifft o blith llawer; ac mae troseddau stelcio ac aflonyddu ar-lein hefyd ar gynnydd wrth i fwy a mwy o bobl ddefnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn eu bywydau beunyddiol.

Mae manteision sylweddol ar gael trwy fod ar-lein, felly mae'n hanfodol bwysig bod pawb ohonon ni'n cydweithio i sicrhau bod gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio'r Rhyngwrwd yn ddiogel.

Y Camau Nesaf

1. Parhau i ddatblygu capasiti a gallu ar draws y Trydydd Sector yn lleol, gyda chefnogaeth y Llysgennad Cynhwysiad Digidol a Chymunedau Digidol Cymru
2. Cyflwyno ymgyrch atal seiber-droseddu ar draws y fwrdeistref sirol, trwy bartneriaeth Castell-nedd Port Talbot mwy Diogel.
3. Parhau i annog asiantaethau partner y BGC i weithio tuag at achrediad ffurfiol o ran y Siarter Cynhwysiad Digidol. Hwyluso Fforwm Strategol lle gall asiantaethau rannu manylion y gwaith yma a nodi meysydd lle byddai gweithredu ar y cyd yn fanteisiol.
4. Parhau i godi proffil cynhwysiad digidol ar draws meysydd gwaith eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
5. Dechrau archwilio sut mae modd cryfhau rhwydwaith Sicrhau bod CNPT Ar-lein, a sut gallai chwarae rôl hirdymor wrth gynnal cynnydd yn y maes gwaith hwn.
6. Canfod sut mae capasiti a gallu digidol y sector preifat yn lleol yn derbyn sylw.

Gwaith Arall a Symudwyd Ymlaen gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn 2018-19

Datblygiad y Bwrdd

Manteisiodd y Bwrdd ar yr hyfforddiant a'r datblygiad a gynigiwyd gan Academi Cymru. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar y materion llywodraethiant y mae angen iddynt fod yn eu lle i gefnogi trefniadau gweithio effeithiol ar y cyd. Bydd cyfleoedd datblygu pellach ar gyfer y Bwrdd yn cael eu harchwilio yn y cyfnod cynllunio nesaf.

Cynghorau Tref a Chymuned

Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â bod â chynrychiolydd o'r cynghorau tref a chymuned ar y Bwrdd ei hun, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r cynghorau tref a chymuned hynny y gosodwyd dyletswyddau arnynt gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pob un o'r cynghorau tref a chymuned hynny wedi paratoi datganiadau sy'n nodi sut maen nhw'n cefnogi cyflawni'r amcanion llesiant a gyflwynwyd yn y Cynllun Llesiant, a bydd y datganiadau hynny'n cael eu hystyried yn ffurfiol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i lywio'i waith wrth symud ymlaen.

Mae copi o'r datganiad a gafwyd gan Gyngor Cymuned Blaenhonddan ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<http://www.blaenhonddan-wcc.gov.uk/wp-content/uploads/2019/05/Annual-Report-2019.pdf>

Bydd dolenni i'r datganiadau a ddarparwyd gan Gyngor Tref Castell-nedd a Chyngor Tref Coedffranc yn cael eu hychwanegu ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi ar eu gwefannau'n ddiweddarach eleni.

Camddefnyddio Sylweddau

Yn dilyn adroddiadau am lefelau uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau; heintiau difrifol a thwf mewn troseddu trefnedig ar draws yr ardal, cytunodd byrddau gwasanaethau cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe fod angen lefel uwch o sylw ar draws asiantaethau.

Ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Critigol gydag aelodaeth ar draws ystod eang o asiantaethau er mwyn asesu risg, bygythiadau a niwed yn fanwl, ac actifadu ymateb priodol ar unwaith.

Cyfarfu'r Grŵp Digwyddiadau Critigol rhwng mis Medi 2018 a mis Chwefror 2019. Ymhlith y camau gweithredu allweddol a gwblhawyd roedd:

- Lleihau'r cyfnodau hir o aros am wasanaethau triniaeth cyffuriau;
- Cyflwyno gwasanaeth estyn allan peilot sy'n targedu pobl y bernir eu bod yn wynebu risg uchel o orddos, haint difrifol neu farwolaeth;
- Cryfhau'r Bwrdd Cynllunio Ardal i ymateb i anghenion pobl yn yr ardal;
- Rhaglen gynhwysfawr o gynyddu ymwybyddiaeth er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws asiantaethau ac o fewn cymunedau o'r gangiau trosedd trefnedig sy'n gyfrifol am *county lines*, gan gynnwys sut mae sylwi ar bryderon a rhoi gwybod amdanynt;
- Gweithrediadau amlasiantaeth ar draws y fwrdeistref sirol i fynd i'r afael â delio mewn cyffuriau ac i gefnogi pobl agored i niwed sy'n cael eu dal gan y gangiau troseddol;
- Rhaglenni gwell ar draws ysgolion, gwasanaethau ieuencid ac addysg bellach/uwch i roi gwybodaeth a sgiliau i athrawon, cynorthwyrwyr addysgu a dysgwyr ynghylch *county lines*, camddefnyddio sylweddau, a sut mae ymateb i sefyllfaoedd; a
- Gweithio ar y cyd i ddarparu ymatebion mwy effeithiol i bobl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl; sydd ag angen iechyd aciwt; a phlant sydd ar goll o gartrefi gofal preswyl yn yr ardal.

Bydd y ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cwrdd o leiaf ddwywaith yn ystod y 12 mis nesaf i fonitro cynnydd. Mae'r atebolrwydd am gyflawni'r camau gweithredu nesaf wedi'i nodi mewn cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y ddau fwrdd.

Y Blynyddoedd Cynnar

Gwahoddwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot i gymryd rhan mewn dwy o raglenni Llywodraeth Cymru:

- Y 1,000 Diwrnod Cyntaf; a
- *Pathfinder* y Blynyddoedd Cynnar.

Gan fod y rhaglenni'n ymddangos fel petaent yn cyd-fynd ag Amcan Llesiant Un, cytunodd y Bwrdd i fod yn rhan o'r ddwy raglen. Y prif reswm dros gyfranogiad yw'r manteision y dylid eu darparu trwy'r dysgu a'r gwaith ymchwil a fydd ar gael o bob rhan o Gymru ac yn ehangach.

Bu gweithdy ar gyfer ymarferwyr rheng flaen i gynyddu ymwybyddiaeth o raglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf yn llwyddiannus iawn, a nifer y bobl oedd yn bresennol yn nigwyddiad Castell-nedd Port Talbot oedd yr uchaf hyd yma yng Nghymru. Mae'r BGC wedi cymeradwyo pum thema a nodwyd ar y diwrnod:

1. Gosod arweinyddiaeth y gwaith hwn yn nwylo'r Bartneriaeth Meddwl Teulu (Think Family);
2. Sicrhau bod yr holl raglenni'n cyd-fynd ag Amcan Llesiant Un;
3. Cynnal lefel yr ymgysylltiad amlasiantaeth;
4. Sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd â gwaith *Pathfinder* y Blynyddoedd Cynnar; a
5. Phartneriaid Meddwl Teulu i adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Atal Hunanladdiad

Nododd gwaith a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod atal hunanladdiad yn fater y mae angen rhoi mwy o sylw iddo ar draws rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gan gydnabod bod achosion hunanladdiad yn gymhleth, mae'r ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi cytuno i gydweithio, gyda golwg ar ganfod pa gamau y gellir eu cymryd i leihau cyfraddau hunanladdiad. Cynhelir cyfarfod cyntaf y ddau fwrdd ym mis Mehefin 2019. Wrth gytuno ar y camau gweithredu sydd i'w cyflawni, bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod llinell gyfathrebu glir â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, fel bod modd ymgorffori unrhyw gamau gweithredu sy'n ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol i waith y bartneriaeth honno.

Y Cynghrair Gweithgarwch Corfforol

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cynghrair Gweithgarwch Corfforol, oedd wedi ymfurfio er mwyn sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio i annog lefel uwch o weithgarwch corfforol yn cydweithio.

Bydd Swyddogion Arweiniol yn ystyried sut gellir integreiddio argymhellion adroddiad y Cynghrair Gweithgarwch Corfforol i'w Hamcanion Llesiant wrth symud ymlaen.

Gweithio ar y cyd

Un o amodau Grant Llywodraeth Cymru sy'n cynnal swyddi Cydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw y dylid ystyried gweithio'n rhanbarthol lle mae hynny'n gwneud synnwyr.

Mae nifer o weithgareddau wedi cael eu cynnal ar y cyd â byrddau gwasanaethau cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Ymhlith y rhain mae:

- Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer awduron adroddiadau ar arddulliau ysgrifennu Darllen Hwylus;
- Ystyried, yn eu tro, rolau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a sefydlwyd i symud ymlaen gyda diwygio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r camau gweithredu allweddol y gwaith hwn yn cynnwys:
- Canolbwyntio gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ataliaeth sylfaenol, gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn derbyn cyfrifoldeb am ataliaeth eilaidd a thrydyddol; a
- Chynnal digwyddiad blynyddol ar y cyd i ddathlu cyflawniadau a rhannu dysgu.
- Mae cyfarfodydd rhwng Cydlynwyr y BGC a'r Swyddogion Arweiniol hefyd wedi nodi rhai themâu cyffredin fydd yn cael eu harchwilio yn ystod y 12 mis nesaf:
 - mabwysiadu agwedd gyson at fapio asedau;
 - rhannu gwybodaeth;
 - dadansoddi data;
 - gwerthuso;
 - datblygu dulliau newydd o ymgysylltu, megis storïau digidol;
 - datblygu'r gweithlu (gwneud i bob cyswllt gyfrif).

Cytunwyd y bydd cyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng cydlynwyr a rhwng swyddogion arweiniol yn cael eu trefnu yn 2019-20. Cytunwyd hefyd y dylid annog asiantaethau i adlewyrchu amcanion llesiant y BGC yng nghynlluniau corfforaethol yr asiantaeth ac ar draws strwythurau partneriaeth.

Mae'r partneriaid yn deall yn glir bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgwyl i ni weithio'n wahanol. Mae'r Bwrdd yn rheolaidd yn herio'i hun i ymateb i'r disgwyl hwn. Mae tystiolaeth bod agwedd partneriaid yn wahanol, fodd bynnag, ac mae'r un mor eglur bod hynny'n heriol weithiau, yn arbennig ar gyfer partneriaid sy'n gweithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol.

Sut gallwch chi olrhain cynnydd ac ymwneud â'n gwaith?

Mae'r gwaith a wneir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan, y gallwch ei gyrchu trwy: <http://www.nptpsb.org.uk/>

Ar ein gwefan cewch fanylion ein Cynllun Ymgysylltu, sy'n nodi amrywiaeth o ffyrdd i chi ymwneud â'n gwaith.

Hefyd gallwch chi gysylltu â Chydlynnydd ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn uniongyrchol: e-bost nptpsb@npt.gov.uk neu ffôn: 01639 763119. Rydym yn croesawu ymwneud ag unrhyw agwedd ar ein gwaith, a byddem hefyd yn croesawu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer meysydd gwaith eraill y gallem eu hystyried i'r dyfodol.

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat arall, cysylltwch â Chydlynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 01639 763119, e-bostiwch nptpsb@npt.gov.uk neu ysgrifennwch at Gydlynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot, SA13 1PJ

Atodiad 1

Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

Aelodau Statudol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Naill ai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr, neu'r ddau)

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (Naill ai'r Cadeirydd, y Prif Swyddog, neu'r ddau)

Cyfoeth Naturiol Cymru (Y Prif Weithredwr)

Cyfranogwyr a Wahoddir a Phartneriaid Eraill

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT (Y Cyfarwyddwr)

Heddlu De Cymru (Y Prif Gwnstabl)

Tai Tarian (Y Prif Weithredwr)

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Prif Weithredwr Cynorthwyol De Cymru)

Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru (Prif Weithredwr Cynorthwyol De Cymru)

Canolfan Byd Gwaith (Rheolwr Ardal)

Grŵp Colegau CNPT (Y Prif Weithredwr)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol a Chyfarwyddwr INSPIRE)

Llywodraeth Cymru (Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Leol: Trawsfurfio a Phartneriaethau)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (Y Cyfarwyddwr)

Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref (cynrychiolydd a etholir gan y cynghorau tref a chymuned)

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a Throsedd)

Prifysgol Abertawe (Y Cofrestrydd)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes/Cyfarwyddwr Arweiniol Plant)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai / Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg)